

# AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT

Adroddiad Blynyddol 2023/24

**VERSUS  
ARTHRITIS**

# Cynnwys

<b>Rhagair</b>	<b>4</b>
<b>Uchafbwyntiau</b>	<b>6</b>
<b>Addysg ac Ymgysylltu</b>	<b>8</b>
<b>Arolwg y Bobl</b>	<b>10</b>
<b>Cynllun Datblygu'r Gymraeg</b>	<b>12</b>
<b>Rhwydwaith Cynnwys y Gymuned</b>	<b>13</b>
<b>Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd</b>	<b>14</b>
<b>Rhwydweithiau a Hyrwyddwyr</b>	<b>15</b>
<b>Ein Hymagwedd at Ddysgu a Datblygu</b>	<b>17</b>
<b>Polisi, Materion Cyhoeddus ac Ymgysylltu</b>	<b>18</b>
<b>Ein Hymrwymiadau</b>	<b>20</b>
<b>Ein Cynlluniau ar gyfer 2024/25</b>	<b>21</b>



VERSUS  
ARTHRITIS

ALL OF US  
VERSUS

# 1

## Rhagair

Mae'n bleser gennyf rannu Adroddiad Blynyddol Amrywiaeth a Chynhwysiant Versus Arthritis ar gyfer 2023/24 a rhannu'r cynnydd rydym wedi'i wneud o ran datblygu amrywiaeth a chynhwysiant ar draws Versus Arthritis. Dyma ein trydydd adroddiad blynyddol amrywiaeth a chynhwysiant ac rydym mewn gwirionedd mewn lle mwy cadarnhaol nawr ers i ni ddechrau canolbwyntio ar roi amrywiaeth a chynhwysiant wrth wraidd popeth a wnawn i bobl ag arthritis. Dyma hefyd y drydedd flwyddyn yn olynol i welliannau mawr yn ein cwestiynau arolwg y bobl ar amrywiaeth a chynhwysiant, gyda mwy o gydweithwyr bellach yn cytuno bod pobl yn Versus Arthritis yn cael eu trin yn gyfartal (+23 pwynt canran o gymharu â 2021).

Rydym wedi bod yn gweithio'n galed i wreiddio amrywiaeth a chynhwysiant yn ein polisïau, prosesau ac, yn bwysig, yn ein hymddygiad ac rydym wedi darparu calendr ardderchog o ddigwyddiadau a chyfleoedd dysgu a datblygu drwy gydol y flwyddyn.

Mae gennym bellach y sylfeini ar gyfer datblygu amrywiaeth a chynhwysiant yn Versus Arthritis ac mae ein strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant 2021/24 wedi gweithio'n dda i ni ac wedi darparu ffocws ar gyfer ein gwaith. Mae angen i ni yn awr alinio ein gwaith amrywiaeth a chynhwysiant â'n strategaeth sefydliadol, a fydd yn ein cefnogi i gysylltu'n well â'n cymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol a deall a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd sy'n gysylltiedig ag arthritis yn well.

Diolch i bawb yn Versus Arthritis sydd wedi bod yn gweithio'n galed i sicrhau ein bod yn elusen sy'n seiliedig ar werthoedd ac yn canolbwyntio ar genhadaeth gyda diwylliant cynhwysol cadarnhaol. Byddwn yn parhau i feithrin ein dealltwriaeth a'n hymwybyddiaeth o amrywiaeth, cynhwysiant, gan sicrhau ei fod wrth wraidd popeth a wnawn yn Versus Arthritis.

**Deborah Alsina MBE,  
Prif Swyddog Gweithredol**

**“Dyma ein trydydd adroddiad  
blynyddol amrywiaeth a  
chynhwysiant ac rydym  
mewn gwirionedd mewn lle  
mwy cadarnhaol nawr ers i ni  
ddechrau canolbwyntio ar roi  
amrywiaeth a chynhwysiant  
wrth wraidd popeth a wnawn i  
bobl ag arthritis.”**



# 2

## Uchafbwyntiau

Rydym wedi bod wrthi'n barhaus yn mireinio ein hymagwedd at amrywiaeth a chynhwysiant, gan ddysgu beth sy'n gweithio a beth sydd angen mwy o ddatblygiad trwy ymgysylltu â'n pobl a'r arfer gorau ac ymchwil ym maes amrywiaeth a chynhwysiant.

### 2

Parhau i gynnal y Rhwydwaith Ymarferwyr Amrywiaeth a Chynhwysiant, gan ddangos ein hymrwymiad i weithio ar draws y sector.

### 3

Mynychodd pob aelod o staff hyfforddiant Ymwybyddiaeth Anabledd gyda Diversity and Ability, menter gymdeithasol arobryn sy'n cael ei harwain gan ac ar gyfer pobl anabl.

### 4

Cyflwyno calendr amrywiaeth a chynhwysiant o ddigwyddiadau gyda 80% o'r sefydliad yn bresennol a gydag adborth ardderchog.

### 1

Fe wnaethom sefydlu Grŵp Iaith Gymraeg a Chynllun Datblygu'r Iaith Gymraeg Versus Arthritis, a gymeradwywyd gan Gomisiynydd y Gymraeg.

### 5

Gwnaethom gyflwyno rhestr termau amrywiaeth a chynhwysiant, fe wnaethom ei rannu ac ymgynghori arno gyda'n grwpiau a rhwydweithiau ar draws Versus Arthritis.

### 6

Fe wnaethom barhau â'n perthynas â'r Fforwm Anabledd Busnes, gan gyrchu adnoddau, pecynnau cymorth a gweminarau i'n holl bobl.

10

Wedi diwygio ein datganiad a'n hadnoddau gwrth-hiliaeth.



9

Wedi cefnogi ein Grŵp Cefnogi Menopos, dathlu Diwrnod Menopos y Byd ac wedi datblygu a rhannu adnoddau menopos.



8

Wedi gweithio gyda'n Rhwydwaith Tegwch Hil (REN), Rhwydwaith Cynhwysiant Anabledd, Rhwydwaith Cydraddoldeb LHDTTC+, Rhwydwaith y Merched a Rhwydwaith y Dynion.



7

Wedi sefydlu Rhwydwaith Cynnwys Cymunedau a pholisi talu am gyfranogiad i gynyddu ein hymgysylltiad â chymunedau ledled y DU.



11

Wedi rheoli rhwydwaith o Hyrwyddwyr Cynhwysiant a Lles i'n helpu i feithrin y gallu ar gyfer amrywiaeth a chynhwysiant ar draws y sefydliad.



12

Wedi gweithio gyda Diversify World i gyflwyno gweithdai ar ymwybyddiaeth a chymhwysedd diwylliannol, cynghreiriaethau a meicro-ymosodedd.



## Addysg ac Ymgysylltu

Yn 2023 fe wnaethom gyflwyno calendr croestoriadol o amrywiaeth a chynhwysiant a chynnwys cysyniadau ac arferion amrywiaeth a chynhwysiant mewn cyrsiau hyfforddi staff a gweithdai, i gynyddu ymwybyddiaeth o'r angen i drin gwahanol safbwyntiau, canfyddiadau a syniadau mewn ffyrdd cadarnhaol. Mae pob aelod newydd o staff yn Versus Arthritis yn mynychu gweithdy Amrywiaeth a Chynhwysiant gorfodol sy'n archwilio'r diffiniadau o gydraddoldeb, tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant, manteision elusen amrywiol a diwylliant cynhwysol. Mae'r gweithdy hefyd yn ymdrin â'r heriau ar gyfer datblygu amrywiaeth a sut y gallwn fod yn fwy ymwybodol o ragfarn unigol a systematig a mannau dall sy'n atal cynnydd amrywiaeth a chynhwysiant yn Versus Arthritis. Mae'r gweithdy hwn wedi'i gyflwyno ers 3 blynedd ac o fis Ionawr 2024, gwahoddwyd staff i fynychu gweithdy atgoffa sy'n gwahodd cydweithwyr i fyfyrio ar sut i ddatblygu amrywiaeth a chynhwysiant yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Mae'r gweithdy'n cefnogi cydweithwyr i ddeall ein nodau a'n hamcanion sefydliadol yn llawn a'n hymrwymiad i amrywiaeth a chynhwysiant ac i sicrhau dealltwriaeth glir o sut i ymgorffori amrywiaeth a chynhwysiant yn ein gwaith. Anogir cydweithwyr hefyd i ddatblygu cynllun

ar gyfer mesur cynnydd amrywiaeth a chynhwysiant yn eu gwaith. Mae hefyd yn ofynnol i aelodau newydd o staff gwblhau hyfforddiant gwrth-hiliaeth a myfyrio ar ein hymrwymiad i wrth-hiliaeth a chael mynediad at ein hadnoddau wedi'u diweddarau. Ym mis Ionawr 2023, fe wnaethom gyflwyno hyfforddiant ymwybyddiaeth anabledl gorfodol a ddarperir gan Diversity and Ability, menter gymdeithasol arobryn a arweinir gan ac ar gyfer pobl anabl. Nod y gweithdy yw gwella gwybodaeth a dealltwriaeth o anabledau a chyffredinolrwydd gwahaniaethau gweladwy ac anweledig yn y gweithle. Bydd yr hyfforddiant hwn yn amlygu newidiadau bach sy'n helpu i greu diwylliant cynhwysol lle gall pawb ffynnu.

**“Roedd yn hynod o oleuedig a defnyddiol i weld y gwahanol safbwyntiau am ddyslecsia h.y. y system addysg, mamau a phobl ifanc sy'n byw gyda dyslecsia. Diolch am y sesiwn.”**



Mae ein gweithdai amrywiaeth a chynhwysiant gorfodol wedi'u cynllunio i sicrhau bod ein holl bobl yn deall pwysigrwydd cynhwysiant amrywiaeth, gwrth-hiliaeth ac ymwybyddiaeth anabledd yn eu gwaith a sut y gallant symud ymlaen â'n hymrwymadau gyda mesuriadau pendant. Ategwyd ein rhaglen gan amrywiaeth o weithdai croestoriadol, a gyflwynir yn aml mewn partneriaeth â'n rhwydweithiau staff. Mae'r pynciau'n cynnwys:

- Diwrnod Rhwydweithiau Staff 2023.
- Ymgysylltu â chymunedau a ddarperir i gydweithwyr yn Cyflwyno yn y DU.
- Ymwybyddiaeth o ganser y fron.
- Mis Pride gyda sgwrs gan sylfaenydd UK Black Pride, Lady Phyll.
- Switsfwrdd LHDT.
- Iechyd meddwl a lles.
- Diwrnod atal hunanladdiad.
- Ystod o ddigwyddiadau crefyddol.
- Ymwybyddiaeth o Ganser y Coluddyn.
- Wythnos Genedlaethol Cynhwysiant 2023.
- Mis Ymwybyddiaeth Dyslecsia.
- Mis Hanes Pobl Ddu 2024 – addysgu Ymchwilwyr Du y Dyfodol.
- Diwrnod Rhyngwladol ar gyfer Dileu Trais yn Erbyn Menywod.
- Wythnos Cydraddoldeb Hiliol 2024.
- Ymwybyddiaeth a chymhwysedd diwylliannol.
- Micro-ymosodedd.
- Diwrnod Rhyngwladol y Menywod – Arallgyfeirio Ymchwil.

Ar gyfer 2024/25, rydym wedi gweithio gyda chydweithwyr ym meysydd cyfathrebu ac ymgysylltu mewnol, Dysgu a Datblygu, Gwirfoddoli a Chynnwys a Diogelu a Lles i gynllunio calendr croestoriadol o ddigwyddiadau sy'n cyflymu dealltwriaeth a gweithrediad Amrywiaeth, Cynhwysiant a gwrth-hiliaeth ac yn ein cefnogi i ddod yn lle gwych i weithio a gwirfoddoli sy'n bodloni ein hamcanion strategol.

**“Pwnc da iawn ac yn berthnasol iawn i waith VA ac o fewn timau. Tri pheth a gymerais i fel bonws ychwanegol o'r digwyddiad hwn oedd, 1. Mae ymgynghori â'r gymuned yn allweddol. 2. Peidiwch â bod ofn rhoi cynnig ar bethau. 3. Peidiwch ag aros am y 'cynllun perffaith', jest gwnewch e.”**

**“Digwyddiad anhygoel, mewnwelediad gwych i Switsfwrdd LHDT+ a'r model cwnsela.”**

# 4

## Arolwg y Bobl 2023

Rydym am sicrhau bod pawb sy'n gweithio i Versus Arthritis yn gallu rhoi o'u gorau i'r sefydliad, teimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u cefnogi i gyflawni mwy i bobl ag arthritis, a chyda nhw. Mae Arolygon y Bobl Versus Arthritis yn gyfle i'n holl bobl ddweud wrthym beth maen nhw'n ei feddwl sy'n dda am weithio yn Versus Arthritis a beth allwn ni ei wneud yn well. Mae cael adborth y gallwn ei feincnodi yn ei erbyn flwyddyn ar ôl blwyddyn yn golygu y gallwn adeiladu darlun cynhwysfawr o'r hyn y mae ein pobl yn ei hoffi am Versus Arthritis a'r hyn y gallwn fod yn ei wneud yn well fel y gallwn wneud gwelliannau a newidiadau gwybodus lle mae angen inni wneud hynny. Mae hefyd yn gyfle i fesur cynnydd ein gweithgarwch amrywiaeth a chynhwysiant. Cynhaliwyd yr Arolwg y Bobl mwyaf diweddar yn ystod mis Medi 2023, gyda 86% o staff yn rhannu eu barn.

Yn galonogol, ymhlith y 5 gwelliant mwyaf ers 2021 mae dau ddatganiad yn ymwneud ag arweinyddiaeth, maes a gafodd rai o'r sgorau isaf yn Arolwg y Bobl 2021. Mae cynnydd cadarnhaol hefyd wedi'i wneud o ran ymwybyddiaeth o strategaeth sefydliadol Versus Arthritis a dealltwriaeth o'i flaenoriaethau (y

ddau yn gwella 26 pwynt canran o gymharu â 2021), gan helpu cydweithwyr i wneud synnwyr o'u cyfraniad a theimlo'n rhan o'r sefydliad. Amrywiaeth a chynhwysiant yw'r trydydd maes lle mae gwelliannau mawr wedi'u gwneud eleni, gyda mwy o gydweithwyr bellach yn cytuno bod unigolion yn Versus Arthritis yn cael eu trin yn gyfartal (+23 pwynt canran o gymharu â 2021). Yn 2023, mae llawer mwy o gydweithwyr sy'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan Versus Arthritis mewn perthynas â'i arferion cynhwysiant anabledd presennol o gymharu ag Arolwg y Bobl 2021 (+15 pwynt canran o'i gymharu â 2021). Yn 2023, mae llawer mwy o gydweithwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan Versus Arthritis mewn perthynas â'i arfer cynhwysiant anabledd presennol o gymharu ag Arolwg y Bobl 2021 (+15 pwynt canran o gymharu â 2021) ac mae sgorau o fewn 'Amrywiaeth a chynhwysiant' yn dal yn gryf gyda'r rhan fwyaf, os nad y cyfan, wedi gwella'n sylweddol o gymharu â chanlyniadau Arolwg y Bobl 2021. Mynychodd llai o gydweithwyr yn Versus Arthritis unrhyw un o'r digwyddiadau amrywiaeth a chynhwysiant dewisol eleni o gymharu â 2021 (-15 pwynt canran o gymharu â 2021) ac mae ymwybyddiaeth

gyffredinol o rwydweithiau staff wedi gostwng ers 2021, gan gynnwys ymhlith y rhai sy'n fwy tebygol o nodi eu bod yn agos at eu hachos. Fodd bynnag, mae mwy yn ystyried eu bod yn darparu man diogel i gydweithwyr.

Fe wnaethom goladu data demograffig amrywiaeth yn Arolwg y Bobl 2023 gyda'r data canlynol:

- **71%** yn fenywod a **19%** yn wrywod.
- Mae **46%** o'r ymatebwyr rhwng 35-54 oed.
- Mae **84%** o ymatebwyr yn nodi eu bod yn wyn Prydeinig.
- Mae gan **46%** o ymatebwyr gyflwr iechyd hirdymor ac mae gan **38%** arthrits neu gyflwr cyhyrsgerbydol arall.

Bydd gweithredu system adnoddau dynol gyda'r gallu i olrhain a mesur demograffeg pobl yn ein helpu i ddeall profiadau ein pobl yn well yn 2024/25 a thargedu ein hymyriadau amrywiaeth a chynhwysiant, gan arwain at fwy o amrywiaeth ar draws yr holl ddemograffeg.



## Cynllun Datblygu'r Gymraeg

Rydym yn falch bod ein Cynllun Datblygu'r Gymraeg wedi'i gymeradwyo gan Gomisiynydd y Gymraeg ym mis Mehefin 2023. Mae'r cynllun yn seiliedig ar ein hymrwymiad sefydliadol i sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal yng Nghymru, a'n hymrwymiad i sicrhau cyfle cyfartal o ran mynediad at ein gwasanaethau ac ymwneud â'n sefydliad. Yn ogystal â'n bwriadau o ran amrywiaeth a chynhwysiant yn gyffredinol, rydym yn cydnabod bod rhwystrau iaith yn ffynhonnell bosibl o wahaniaethu. Ceisiwn felly gael gwared ar y potensial o wahaniaethu yn erbyn pobl y mae'n well ganddynt siarad a darllen Cymraeg. Os bydd

yn rhaid i ni flaenoriaethu'r defnydd o'r adnoddau sydd ar gael i ni, byddwn yn asesu anghenion trwy ddull teg ac agored, gan ddarparu'r lefel uchaf o wasanaeth i bawb sy'n siarad ac yn darllen Cymraeg. Cefnogir gweithrediad y cynllun gan gydweithwyr yn ein Grŵp Iaith Gymraeg, sy'n cynnwys staff ar draws y sefydliad. Mae gennym hefyd adnoddau Cymraeg ar gyfer staff a gwirfoddolwyr a hoffai ddysgu Cymraeg, neu ambell frawddeg yn y Gymraeg. Fe wnaethom hefyd ddatblygu canllaw ar gyfer cynnal digwyddiadau yng Nghymru, ynghyd â chanllaw ar gyfer cyfieithu i'r Gymraeg.



# Rhwydwaith Cynnwys y Gymuned

Roeddem yn falch iawn o lansio ein Rhwydwaith Cynnwys y Gymuned yn 2023. Mae ein Rhwydwaith Cynnwys y Gymuned yn grŵp o sefydliadau sydd am weithio gyda ni i gyflawni ein nod - dyfodol heb arthritis ac i ddeall a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd sy'n gysylltiedig ag arthritis yn well. Mae ein hymrwymiad i'n haelodau yn cynnwys:

- Mynediad at ein gwasanaethau cymorth, megis y Llinell Gymorth, adnoddau Cymunedol Ar-lein a Gweithgareddau Ymarfer Corff.
- Sesiynau ar-lein chwarterol sy'n agored i staff, gwirfoddolwyr a phobl sy'n cysylltu â'ch sefydliad.
- Rhannu cyfleoedd a gwasanaethau yn ein cylchlythyr misol i'n Rhwydwaith Cynnwys.

Fe wnaethom sefydlu'r Rhwydwaith Cynnwys y Gymuned gan ein bod yn dymuno ymgysylltu â chymunedau

nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol gan ein sefydliad ar hyn o bryd. Rydym yn ystyried y bobl ganlynol fel rhai nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol ac yn annog y rhai sy'n gweithio gyda'r grwpiau hyn i ymuno â'n Rhwydwaith Cynnwys y Gymuned:

- Pobl â chyflyrau iechyd hirdymor
- Cymunedau diwylliannol amrywiol
- Sefydliadau a arweinir gan anabledd
- Pobl o grwpiau economaidd-gymdeithasol is.

Yn 2024/25 rydym yn bwriadu ehangu ein Rhwydwaith Cynnwys Cymunedau ymhellach a chynyddu cyfranogiad unigolion sydd ag arthritis o amrywiaeth o gefndiroedd trwy ein gweithdrefn pobl i'w talu am gyfranogiad a gymeradwywyd yn ddiweddar.

# Fframwaith Cydraddoldeb Hiliol y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd a Gofal

Cenhadaeth y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd a Gofal (NIHR) yw gwella iechyd a chyfoeth y genedl trwy ymchwil ac roeddem wrth ein bodd yn 2023 i gychwyn ar ein taith gyda Fframwaith Cydraddoldeb Hiliol NIHR. Mae'r fframwaith yn offer hunanasesu sydd wedi'i gynllunio i helpu sefydliadau i wella tegwch hiliol mewn ymchwil iechyd a gofal. Pwrpas y Fframwaith yw arwain sefydliadau mewn ymchwil iechyd a gofal ar eu llwybr i gymhwysedd hiliol. Wrth wneud hynny, mae'n anelu at ddileu annhegwch hiliol mewn ymchwil iechyd a gofal a gwella tegwch mewn canlyniadau iechyd a gofal i gymunedau treftadaeth Du Affricanaidd, Asiaidd a Charibïaidd. Mae ei gwmpas fel a ganlyn:

- darparu model ar gyfer cynwysoldeb mewn ymchwil
- cynyddu recriwtio, a chyfranogiad pobl treftadaeth Du Affricanaidd-, Asiaidd a Charibïaidd mewn ymchwil
- dal ymchwilwyr a sefydliadau yn atebol am degwch hiliol.

Rydym yn cydnabod tangynrychiolaeth cymunedau amrywiol mewn ymchwil iechyd a gofal a'u gorgynrychiolaeth ym maes iechyd, gofal ac anghydraddoldeb ac annhegwch ehangach. Bydd cwblhau'r hunanasesiad hefyd yn rhoi'r wybodaeth, y mewnwelediad a'r dystiolaeth sydd eu hangen arnom i wneud penderfyniadau gwybodus a bodloni eu rhwymedigaethau o dan ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Drwy hyrwyddo cydraddoldeb a thegwch hiliol, rydym yn fwy tebygol o ganfod ei fod yn cysylltu a gweithio gyda chymunedau amrywiol, yn gallu rheoli risgiau'n well ac yn gwneud gwell penderfyniadau busnes - i gyd oherwydd y mewnwelediad gwell a'r datrys problemau a ddaw yn sgil amrywiaeth. Mae ein camau cyntaf wrth ddefnyddio'r offeryn hunanasesu wedi cynnwys gweithio gyda Phrifysgol Caeredin a thra ein bod yn y camau cynnar, rydym yn gobeithio adrodd ar gynnydd sylweddol yn 2024/25.

# Rhwydweithiau a Hyrwyddwyr

Mae gennym 5 Rhwydwaith Staff yn Versus Arthritis:

- Rhwydwaith Tegwch Hil (REN)
- Rhwydwaith Anabledd a Chynhwysiant
- Rhwydwaith Cydraddoldeb LHDTTC+
- Rhwydwaith y Menywod
- Rhwydwaith y Dynion

Mae'r rhwydweithiau wedi darparu lle diogel i gydweithwyr ymgysylltu â chydweithwyr o gefndiroedd a diddordebau tebyg ac wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau gan gynnwys Mis Hanes Pobl Ddu, Mis Pride a sesiynau ymwybyddiaeth iechyd. Mae pob rhwydwaith yn gweithio'n galed i gynyddu aelodaeth. Diolch i holl aelodau ein Rhwydwaith Staff ac edrychwn ymlaen at ychwanegu at eich llwyddiannau yn y flwyddyn i ddod.

Hyrwyddwyr Cynhwysiant a Lles Yn 2023 fe wnaethom ddiweddarau ein Hyrwyddwyr Cynhwysiant, gan ymgorffori lles yn y rôl wrth i ni ddatblygu fframwaith llesiant cadarn ar gyfer ein pobl. Mae dros 30 o

hyrwyddwyr yn ein helpu i barhau i adeiladu ein rhwydwaith o unigolion sy'n mynd ati'n frwd i ddatblygu nodau ein strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant yn eu gwaith drwy:

- Annog sgysiau am amrywiaeth, cynhwysiant a lles yn weithredol a chwestiynu'r ffordd yr ydym yn gwneud pethau.
- Hyrwyddo, dathlu a chodi ymwybyddiaeth o amrywiaeth, cynhwysiant a lles o fewn eu tîm.
- Fodelu ymddygiad cynhwysol a rheoli eu lles eu hunain, gan hyrwyddo offer ac adnoddau lles Versus Arthritis.
- Roi'r wybodaeth ddiweddaraf i gydweithwyr am ein newyddion a'n digwyddiadau amrywiaeth, cynhwysiant a lles.
- Ddysgu'n barhaus am bynciau amrywiaeth, cynhwysiant a lles.
- Creu 'man diogel' lle gall Hyrwyddwyr Cynhwysiant a Lles rannu eu profiadau a gwneud awgrymiadau ar sut i ddatblygu amrywiaeth, cynhwysiant a lles ymhellach ar draws Versus Arthritis.

## Ein Grŵp Cymorth Menopos

Mae'r rhan fwyaf o'n staff yn Versus Arthritis yn fenywod rhwng 35 a 54 oed, sy'n golygu y bydd canran uchel yn profi perimenopos a menopos. Menywod sy'n profi'r menopos yw'r ddemograffeg sy'n tyfu gyflymaf yn y gweithlu ac mae bron i wyth o bob 10 o ferched sy'n profi'r menopos yn gweithio. Rydym yn falch o gael Grŵp Cefnogi Menopos a datblygu Canllawiau Menopos ar gyfer Staff a

Gwirfoddolwyr a Rheolwyr Llinell. Mae gennym hefyd set fanwl o adnoddau menopos sydd ar gael i bob aelod o staff. Mae Grŵp Cymorth Menopos yn cyflenwi eitemau ar gyfer 'pecynnau menopos brys' yn ein swyddfeydd ar draws y pedair gwlad 'oherwydd bod pethau'n digwydd'. Rydym hefyd yn aelodau o Henpicked a byddwn yn gwneud cais am statws 'Cyflogwr Cyfeillgar i'r Menopos' yn 2024. Rydym hefyd wedi llofnodi'r 'Addewid Menopos yn y Gweithle'.





# Ein Hymagwedd at Ddysgu a Datblygu

Gwnaethom ddiweddarau ein hymagwedd at ddysgu a datblygu yn llwyr yn 2023, gan ganolbwyntio ar ddiwylliant cynhwysol o ddysgu a datblygu i gefnogi Versus Arthritis i fod yn lle gwych i weithio a gwirfoddoli. Bydd ein hymagwedd at ddysgu a datblygu yn gwella diwylliant Versus Arthritis ac yn annog ein pobl i fyw ein gwerthoedd. Mae diwylliant dysgu yn cefnogi meddylfryd agored, archwiliad annibynnol am wybodaeth, a dysgu ar y cyd wedi'i gyfeirio at genhadaeth a nodau ac amcanion strategol Versus Arthritis. Byddwn yn datblygu ein diwylliant dysgu a datblygu drwy gyflwyno rhaglen sydd â ffocws, sy'n hygyrch ac yn ymgysylltu â'r cyhoedd ac sy'n sicrhau ein bod yn elusen gynaliadwy sy'n canolbwyntio ar weledigaeth a gwerthoedd ac yn lle gwych i weithio a gwirfoddoli. Dyma'r meysydd allweddol a fydd yn ein cefnogi i ysgogi diwylliant dysgu a datblygu yn Versus Arthritis:

- Yn cyd-fynd â nodau strategol
- Adnabod a mynd i'r afael ag anghenion dysgu
- Wedi'i deilwra i'r gynulleidfa

- Rhoi grym i'n rheolwyr
- Mynediad at adnoddau ac annibyniaeth
- Cyfleoedd dysgu amrywiol a hyblygrwydd
- Cefnogaeth gan Gyfoedion a chyfleoedd dysgu cymdeithasol
- Wedi'i yrru gan ddata

Byddwn yn parhau i gynnwys amrywiaeth, cynhwysiant a chysyniadau ac arferion lles mewn cyrsiau hyfforddi, hyfforddiant rheoli a rhaglenni meithrin tîm er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o'r angen i drin gwahanol safbwyntiau, canfyddiadau a syniadau mewn ffyrdd cadarnhaol. Byddwn hefyd yn parhau i ddarparu rhaglenni codi ymwybyddiaeth fel rhan o'n hyfforddiant amrywiaeth a chynhwysiant parhaus ehangach wedi'i integreiddio i ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP). Drwy ein Rhaglen Datblygu Rheolaeth sydd i'w lansio yn 2024/25, byddwn yn hyfforddi pob arweinydd a rheolwr i'w helpu i ddeall y materion dan sylw ac ysgogi eu cefnogaeth i bolisïau ac arferion sefydliadol a gweithredol.

# Polisi, Materion Cyhoeddus ac Ymgysylltu

Rydym yn parhau i amlygu effaith a phwysigrwydd mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd fel thema groestoriadol allweddol yn ein hymagwedd polisi a materion cyhoeddus, er enghraifft yn ein hymateb ysgrifenedig i ymgynghoriad y Llywodraeth ar y Strategaeth Cyflyrau Mawr newydd.

## Gweithio mewn clymblaid

Rydym wedi annog y Llywodraeth i gynnal ymrwymiad i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Mae Versus Arthritis yn aelod o'r Gynghrair Anghydraddoldebau Iechyd (IHA), sef clymblaid o sefydliadau a gynullwyd gan Goleg Brenhinol y Ffisigwyr sy'n ymgyrchu dros strategaeth drawslywodraethol i leihau anghydraddoldebau iechyd. Mae'r IHA yn galw ar y Llywodraeth i:

1. ddatblygu strategaeth drawslywodraethol i leihau anghydraddoldebau iechyd
2. gychwyn y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, adran 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Mae'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn

allweddol i sicrhau bod anghenion pobl agored i niwed, y gellir eu hanghofio'n rhy aml o lawer, yn cael eu hystyried ym mhob penderfyniad)

3. fabwysiadu dull 'iechyd plant ym mhob polisi'.

Fel aelod o'r Gynghrair Arthritis a Chyhyrsgerberbydol rydym wedi cyfrannu at ddatblygu a lledaenu ei ymchwiliad 'Act Now' i anghydraddoldebau iechyd cyhyrsgerberbydol, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2024.

## Cynnwys Pobl

Rydym yn cynnwys pobl sydd â phrofiad o fyw yn rheolaidd yn ein gwaith polisi, materion cyhoeddus ac ymgyrchu. Mae hyn yn cynnwys siarad o flaen gwleidyddion yn ein Derbyniadau Seneddol, drwy arolygon, a thrwy gweithredoedd ymgyrchu. Rydym yn gweithio i wella ein prosesau o ran cynnwys unigolion sydd â phrofiad bywyd yn ein gwaith a cheisio ehangu amrywiaeth y bobl sy'n ymwneud â'n gwaith. Mae hyn yn cynnwys gwneud yn siŵr bod lleisiau

unigolion ag arthritid yn ganolog i'n gwaith polisi ac ymgyrchu yn y dyfodol, a'n bod yn edrych yn benodol ar 'straeon sy'n cael eu hadrodd yn llai aml' yn unol ag anghydraddoldebau iechyd ac yn ceisio sicrhau bod gennym ni amrywiaeth o brofiadau yn y sgysiau hyn. Eleni fe wnaethom gynnal sesiynau gwranddo i fwydo i mewn i Strategaeth Cyflyrau Mawr y Llywodraeth ac i gefnogi lleisiau grŵp mwy amrywiol o bobl sy'n cael eu clywed wrth lunio polisiau.

## Ymchwil

Mae Versus Arthritis yn buddsoddi tua £13 miliwn mewn ymchwil bob blwyddyn, ac mae mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn rhan sylfaenol o'n Strategaeth Ymchwil ar gyfer 2022/26.<sup>1</sup>

<sup>1</sup> Versus Arthritis (2021). Strategaeth Ymchwil 2022/26. Cyrchu yma: <https://www.versusarthritis.org/research/introducing-our-research-strategy/>



# Ein Hymrwymiadau



**Endometriosis**  
Friendly Employer



# Ein Cynlluniau ar gyfer 2024/25

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol gyda'n hamrywiaeth a chynhwysiant yn y tair blynedd diwethaf, ac rydym yn sefydliad hollol wahanol i Versus Arthritis yn 2021, gyda gweledigaeth glir, strategaeth sefydliadol a gwerthoedd ac ymddygiadau ar y cyd a chalendr croestoriadol o ddigwyddiadau sy'n canolbwyntio ar amrywiaeth a chynhwysiant a lles. Byddwn yn mabwysiadu ymagwedd systemig gan gynnwys datblygu diwylliant cynhwysol, ymagweddau cynhwysol at bolisiau ac arferion, ymddygiad personol, a thrwy reoli materion amrywiaeth a chynhwysiant mewn ffyrdd sydd hefyd yn cefnogi cyflawni ein strategaeth sefydliadol.

## Diweddariad ar strategaeth a llywodraethu

Byddwn yn diweddarau ein strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer 2021/24 ac yn ei halinio'n llawn â'n strategaeth sefydliadol a'n gwerthoedd a'n hymddygiad. Byddwn hefyd yn adnewyddu ein trefniadau llywodraethu amrywiaeth a chynhwysiant i sicrhau bod 'llais y bobl' yn rhan annatod o'n dull gweithredu.

## Addysg ac ymgysylltu

Byddwn yn parhau i feithrin ein dealltwriaeth a'n hymwybyddiaeth sefydliadol o amrywiaeth croestoriadol,

cynhwysiant a gwrth-hiliaeth ac ymwybyddiaeth o anabledd trwy galendr o ddigwyddiadau, hyfforddiant, pecynnau cymorth ac adnoddau. Bydd ein rhaglen yn cefnogi cydweithwyr i deimlo y gallant roi gweithgareddau amrywiaeth a chynhwysiant ar waith yn eu rôl.

## Achrediadau

Byddwn yn gweithio tuag at ddod yn Arweinydd Hyderus o ran Anabledd, Cyflogwr Visibly Better, Safon Cydraddoldeb Hiliol NIHR a Chyflogwr Cyfeillgar i'r Menopos.

## Rhwydwaith Cynnwys y Gymuned

Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau sy'n gweithio gyda'n cymunedau nad ydyn nhw'n cael eu gwasanaethu'n ddigonol er mwyn i ni nodi a mynd i'r afael yn well ag anghydraddoldebau iechyd sy'n gysylltiedig ag arthritis a chysylltu a chyrraedd ein cymunedau nad ydyn nhw'n cael eu gwasanaethu'n ddigonol.


## Recriwtio a yrrir gan ddata

Gyda gweithrediad llawn ein system adnoddau dynol, byddwn yn deall amrywiaeth ein pobl yn well ac yn cael ein gyrru gan ddata yn ein hymrwymiad i gynyddu amrywiaeth ein helusen.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan  
[versusarthritis.org](http://versusarthritis.org)

0300 790 0400

 /VersusArthritis

 @VersusArthritis

 @VersusArthritis

Versus Arthritis  
Copeman House  
St Mary's Gate  
Chesterfield  
S41 7TD